

**2020 Rhif (Cy. )**

**2020 No. (W. )**

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn Cefnffordd yr A4232  
(Cyffordd 33 (Capel Llanilltern) i  
Groes Cwrlwys, Caerdydd)  
(Gwahardd Cerbydau Dros Dro)  
2020

The A4232 Trunk Road (Junction  
33 (Capel Llanilltern) to  
Culverhouse Cross, Cardiff)  
(Temporary Prohibition of  
Vehicles) Order 2020

*Gwnaed* 20 Awst 2020

*Made* 20 August 2020

*Yn dod i rym* 22 Awst 2020

*Coming into force* 22 August 2020

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A4232, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A4232 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by sections 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

**Enwi, Cychwyn a Dehongli**

**Title, Commencement and Interpretation**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4232 (Cyffordd 33 (Capel Llanilltern) i Groes Cwrlwys, Caerdydd) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 22 Awst 2020.

1. The title of this Order is the A4232 Trunk Road (Junction 33 (Capel Llanilltern) to Culverhouse Cross, Cardiff) (Temporary Prohibition of Vehicles) Order 2020 and it comes into force on 22 August 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn—

2. In this Order—

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

“exempted vehicle” (“*cerbyd esempt*”) means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

---

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

---

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006(c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw’r cyfnod sy’n dechrau am 20:00 ar 22 Awst 2020 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A4232 Llundain i Abergwaun.

### Gwaharddiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

### Cymhwyso

4. Nid yw’r gwaharddiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

### Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

5. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

20 Awst 2020

Nicci Hunter  
Arweinydd y Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A4232 London to Fishguard trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means the period commencing at 20:00 on the 22 August 2020 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

### Prohibition

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

### Application

4. The prohibition in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

### Duration of this Order

5. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated the

20 August 2020

Nicci Hunter  
Business Team Leader  
Welsh Government

## YR ATODLEN

### Gwahardd Cerbydau Dros Dro

1. Y darn cyfan o ffordd ymuno tua’r gogledd yr A4232 wrth Gyfnewidfa Croes Cwrlwys.
2. Y darn o gerbyttffordd tua’r gogledd yr A4232 sy’n ymestyn o bwynt 352 o fetrau i’r gogledd-orllewin o ganolbwynt Croes Cwrlwys hyd at ei chyffordd â cherbyttffordd gylchredol Cyffordd 33 Capel Llanilltern.
3. Y darn cyfan o ffordd ymadael tua’r de yr A4232 wrth Gyfnewidfa Croes Cwrlwys.

## SCHEDULE

### Temporary prohibition of vehicles

1. The entire length of the A4232 northbound entry slip road at Culverhouse Cross Interchange.
2. The length of the A4232 northbound carriageway that extends from a point 352 metres northwest of the centre-point of Culverhouse Cross to its junction with the circulatory carriageway of J33 Capel Llanilltern.
3. The entire length of the A4232 southbound exit slip road at Culverhouse Cross Interchange.

4. Y darn o gerbythffordd tua'r de yr A4232 sy'n ymestyn o'i chyffordd â cherbythffordd gylchredol Cyffordd 33 Capel Llanilltern (gan gynnwys y lôn neilltuedig tua'r de) hyd at bwynt 352 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt Croes Cwrlwys.

4. The length of the southbound carriageway of the A4232 that extends from its junction with the circulatory carriageway of J33 Capel Llanilltern (including the southbound dedicated lane) to a point 352 metres northwest of the centre point of Culverhouse Cross.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A4232  
(CYFFORDD 33 (CAPEL LLANILLTERN) I  
GROES CWRLWYS, CAERDYDD)  
(GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2020**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A4232, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 33 (Capel Llanilltern) a Chroes Cwrlwys, Caerdydd.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o gefnffordd yr A4232 a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybrau eraill yn yr Atodlen hefyd.

Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro, y codir arwyddion priodol yn ei gylch, yn dod i rym ar 22 Awst 2020 ac yn gweithredu'n ysbaidiol dros nos (20:00 – 06:00 o'r gloch) am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchymynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**



**J SADDLER**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLEN**

**Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Llwybrau Eraill**

1. Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r gogledd yr A4232 wrth Gyfnewidfa Croes Cwrlwys.

Y llwybr arall fydd parhau ar Gyfnewidfa Croes Cwrlwys ac ymuno â cherbyttffordd tua'r de yr A4232, parhau i Gyfnewidfa Lecwydd ac yna ailymuno â cherbyttffordd tua'r gogledd yr A4232.

2. Y darn o gerbyttffordd tua'r gogledd yr A4232 sy'n ymestyn o bwynt 352 o fetrau i'r gogledd-orllewin o

**THE A4232 TRUNK ROAD (JUNCTION 33  
(CAPEL LLANILLTERN) TO CULVERHOUSE  
CROSS, CARDIFF) (TEMPORARY  
PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2020**


The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A4232 trunk road between Junction 33 (Capel Llanilltern) and Culverhouse Cross, Cardiff.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services and for the works, from proceeding on the lengths of the A4232 trunk road specified in the Schedule to this Notice. The alternative routes are also described in the Schedule.

The temporary prohibition, which will be signed accordingly, is expected to come into force on 22 August 2020 and to operate intermittently overnight (20:00 – 06:00 hours) for a maximum period of 18 months.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**



**J SADDLER**  
Transport  
Welsh Government

**SCHEDULE**

**Temporary Prohibition of Vehicles & Alternative Routes**

1. The entire length of the A4232 northbound entry slip road at Culverhouse Cross Interchange.

The alternative route will be to continue on Culverhouse Cross Interchange and join the A4232 southbound carriageway, continue to Leckwith Interchange then re-join the A4232 northbound carriageway.

2. The length of the A4232 northbound carriageway that extends from a point 352 metres northwest of the

ganolbwynt Croes Cwrlwys hyd at ei chyffordd â cherbyttfordd gylchredol Cyffordd 33 Capel Llanilltern.

Y llwybr arall fydd ymadael â'r A4232 wrth Groes Cwrlwys ac ymuno â'r A48 tua'r dwyrain ar hyd Heol Orllewinol y Bont-faen a Western Avenue, ymadael wrth Gyfnewidfa Gabalfa i ymuno â'r A470 tua'r gogledd ar Manor Way, yna ymadael wrth Gyfnewidfa Coryton ac ymuno â cherbyttfordd tua'r gorllewin yr M4 i Gyfnewidfa Capel Llanilltern.

3. Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r de yr A4232 wrth Gyfnewidfa Croes Cwrlwys.

Y llwybr arall ar gyfer traffig tua'r de fydd parhau ar gerbyttfordd tua'r de yr A4232 i Gyfnewidfa Lecwydd a dychwelyd ar gerbyttfordd tua'r gogledd yr A4232 i Groes Cwrlwys.

4. Y darn o gerbyttfordd tua'r de yr A4232 sy'n ymestyn o'i chyffordd â cherbyttfordd gylchredol Cyffordd 33 Capel Llanilltern (gan gynnwys y lôn neilltuedig tua'r de) hyd at bwynt 352 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt Croes Cwrlwys.

Y llwybr arall fydd parhau ar Gyfnewidfa Capel Llanilltern ac ymuno â cherbyttfordd tua'r dwyrain yr M4, ymadael wrth Gyffordd 32 (Cyfnewidfa Coryton) i ymuno â'r A470 tua'r de ar Manor Way, yna ymadael wrth Gyfnewidfa Gabalfa ac ymuno â'r A48 tua'r gorllewin ar hyd Western Avenue a Heol Orllewinol y Bont-faen i Gyfnewidfa Croes Cwrlwys.

centre-point of Culverhouse Cross to its junction with the circulatory carriageway of J33 Capel Llanilltern.

The alternative route will be to exit the A4232 at Culverhouse Cross and join the A48 eastbound along Cowbridge Road West and Western Avenue, exit at Gabalfa Interchange to join the A470 northbound on Manor Way, then exit at Coryton Interchange and join the M4 westbound carriageway to Capel Llanilltern Interchange.

3. The entire length of the A4232 southbound exit slip road at Culverhouse Cross Interchange.

The alternative route for southbound traffic will be to continue on the A4232 southbound carriageway to Leckwith Interchange and return on the A4232 northbound carriageway to Culverhouse Cross.

4. The length of the southbound carriageway of the A4232 that extends from its junction with the circulatory carriageway of J33 Capel Llanilltern (including the southbound dedicated lane) to a point 352 metres northwest of the centre-point of Culverhouse Cross.

The alternative route will be to continue on Capel Llanilltern Interchange and join the M4 eastbound carriageway, exit at Junction 32 (Coryton Interchange) to join the A470 southbound on Manor Way, then exit at Gabalfa Interchange and join the A48 westbound along Western Avenue and Cowbridge Road West to Culverhouse Cross Interchange.